Gorffennaf 2023

# Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint
# Adolygu Lladdiad Trais Domestig

## CRYNODEB GWEITHREDOL

## Marwolaeth Lucy

## 27 mlwydd oed

## Bu farw: AWST 2021

**Cadeirydd y Panel Annibynnol a'r Awdur Theresa Breen MA**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **Y Drefn Adolygu** | **Tudalen 3** |
| **Cyfranwyr i'r Adolygiad** | **Tudalen 4** |
| **Aelodau'r Panel Adolygu** | **Tudalen 4** |
| **Amserlen** | **Tudalen 4** |
| **Awdur** | **Tudalen 5** |
| **Cylch Gorchwyl** | **Tudalen 5** |
| **Cronoleg Gryno** | **Tudalen 7** |
| **Materion allweddol** | **Tudalen 8** |
| **Casgliadau** | **Tudalen 9** |
| **Gwersi i'w dysgu** | **Tudalen 9** |
| **Argymhellion** | **Tudalen 10** |

## Y DREFN ADOLYGU

Mae'r crynodeb hwn yn egluro'n fras y drefn a ddilynodd panel adolygu lladdiadau domestig Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint wrth adolygu lladdiad Lucy, a oedd yn byw yn ardal y Bartneriaeth.

Wedi y bu farw Lucy, comisiynodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint yr adolygiad hwn yn unol â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, a phenodwyd y Cadeirydd/Awdur i gynnal adolygiad o amgylchiadau holistig yr achos cyn y bu farw Lucy. Cyfarfu'r panel nifer o weithiau a bu'r asiantaethau'n bresennol. Casglwyd gwybodaeth o ddatganiadau tystion a ddefnyddiodd yr heddlu yn yr achos llys. Gwrthododd tystion siarad ag Awdur yr adroddiad hwn. Gwrthododd y cyflawnwr gael ei gyfweld yn y carchar.

Defnyddiwyd y ffugenwau canlynol yn yr adolygiad hwn ar gyfer y dioddefwr a'r cyflawnwr ac eraill, er mwyn cadw eu henwau ac enwau eu perthnasau'n gyfrinachol.

| Ffugenwau: | Perthynas â Lucy | Oedran adeg y digwyddiad | Wedi gwneud datganiad i'r Heddlu | Ethnigrwydd |
|---|---|---|---|---|
| Lucy | Amherthnasol | 27 mlwydd oed | Amherthnasol | Gwyn |
| David | Cyn-bartner / cyflawnwr | 29 mlwydd oed | Cyfweliad(au) | Gwyn |
| Plentyn 1 | Plentyn hynaf | 20.10.2011 (9 mlwydd oed) | Naddo | Amherthnasol |
| Plentyn 2 | Ail blentyn | 31.05.2013 (8 mlwydd oed) | Naddo | Amherthnasol |
| Plentyn 3 | Trydydd plentyn | 16.03.2016 (5 mlwydd oed) | Naddo | Amherthnasol |
| Plentyn 4 | Pedwerydd plentyn | 09.05.2019 (2 flwydd oed) | Naddo | Amherthnasol |
| Mike (ZR) | Cefnder | Amherthnasol | Do | Amherthnasol |
| Mary (TW) | Ffrind gorau<br>Yn briod â Mike | Amherthnasol | Do | Amherthnasol |
| Leah (LJ) | Ffrind hirdymor benywaidd | Amherthnasol | Do | Amherthnasol |
| Alex (CD) | Ffrind newydd gwrywaidd | Amherthnasol | Do | Amherthnasol |
| John | Tad yng nghyfraith | Amherthnasol | Do | Amherthnasol |
| Liz | Modryb | Amherthnasol | Naddo | Amherthnasol |

Gorffennodd yr achos troseddol ar 06.04.2022 pan roes y rheithgor y farn bod y diffynnydd yn euog o lofruddiaeth ac ar 12.04.2022, soniodd y barnwr yn yr achos am 'ymosodiad milain a didrugaredd' gan 'bartner oedd yn ei rheoli ac yn feddiannol ohoni'.

Dechreuodd y broses pan gynhaliodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyfarfod cychwynnol ar 19.10.2021 a phenderfynu cynnal adolygiad lladdiad domestig. Cysylltwyd â'r holl asiantaethau a allai fod wedi bod mewn cysylltiad â Lucy a David cyn iddi farw a gofynnwyd iddynt gadarnhau a fuont yn gweithio â hwy. Cadarnhaodd tair o asiantaethau o'r wyth y cysylltwyd â hwy y buont mewn cysylltiad â'r dioddefwr a/neu'r cyflawnwr a'r plant, a gofynnwyd iddynt

## CYFRANWYR I'R ADOLYGIAD

Gan mai prin fu'r cyswllt, ni cheisiwyd ond Adolygiad Rheoli Unigol gan yr heddlu yn Sir y Fflint. Bu aelodau'r panel adolygu'n dal i gwrdd a chyfrannu at yr adolygiad. Roedd awdur yr Adolygiad Rheoli Unigol yn annibynnol ac fe lofnododd yr hyn a gyflwynwyd heb wybod dim am yr achos na'r teulu.

Cyfrannodd nifer o ffrindiau a pherthnasau at yr adolygiad drwy ddatganiadau i'r heddlu ond gwrthodont gael eu cyfweld gan y Cadeirydd. Er bod David wedi cytuno i gwrdd â'r Cadeirydd i ddechrau, fe wrthododd adael ei gell. Ceir cyfraniad ganddo ar ffurf crynodeb o'i gyfweliad â'r heddlu.

## AELODAU'R PANEL ADOLYGU

Penderfynwyd penodi'r deuddeg o gynrychiolwyr a ganlyn yn aelodau o'r Panel Adolygu. Mae'r Panel yn gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth drylwyr a herio'r wybodaeth a gyflwynir, a gwneud ymdrech onest, ddiwyd a thrwyadl i ddysgu o'r gorffennol. Roedd aelodau'r panel yn meddu ar arbenigedd addas ac yn annibynnol, heb fod yn rheolwyr atebol uniongyrchol ar neb a fu'n ymwneud â'r achos.

Diogelwch Cymunedol Cyngor Sir y Fflint: Peter Shakespeare
Diogelwch Cymunedol Cyngor Sir y Fflint: Richard Powell
Diogelwch Cymunedol Cyngor Sir y Fflint: Sian Jones
Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) Cyngor Sir y Fflint: Jo Taylor
Addysg Cyngor Sir y Fflint: Claire Homard
Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant) Cyngor Sir y Fflint: Peter Robson
Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir y Fflint: Annemarie McNally
Heddlu Gogledd Cymru: Rob Mahoney
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru: Tim Owen
Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru: Lowri Owen
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Chris Weaver
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: Christine Hinton

Cafwyd cymorth a chyngor hefyd gan yr Uned Diogelwch Trais Teuluol a Chymorth i Ferched Clwyd Alyn. Gwasanaethau cefnogi a ddarperir yn Sir y Fflint yw'r rhain.

## AMSERLEN

Cyfarfu'r Panel chwech o weithiau.

19.10.2021: Cyfarfod cychwynnol â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i benderfynu ynghylch darpar aelodau'r Panel.

07.12.2021: Cyfarfod arall â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

21.03.2021: Dyddiad y treial

11.04.2022: Cyfarfod â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gynllunio cyfarfod y Panel.

20.05.2022: Cyfarfod arall â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

26.05.2022: Cyfarfod cychwynnol o'r Panel lle rhannwyd Cylch Gorchwyl er sylw a chymeradwyaeth a gofynnwyd am gronolegau.

28.07.2022: Ail gyfarfod y Panel, a ohiriwyd oherwydd llawdriniaeth frys (Cadeirydd).

12.10.2022: Ail gyfarfod y Panel (i drafod cronolegau a chytuno ar Adolygiadau Rheoli Unigol).

07.12.2022: Trydydd cyfarfod y Panel (a chychwyn yr adroddiad drafft).

10.05.2023: Cyflwyno a rhannu'r adroddiad drafft a chynnal pedwerydd cyfarfod y Panel.

07.05.2023: Cyfarfod olaf y Panel a rhannu'r adroddiad Terfynol er sylw/cymeradwyaeth cyn ei anfon i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar 11.07.2023.

**AWDUR YR ADRODDIAD TROSOLWG**

Cadeirydd y Panel ac Awdur yr adroddiad yw Theresa Breen. Mae hi'n gyn-uwch-swyddog yn yr heddlu sydd wedi ymddeol ar ôl gweithio mewn amryw feysydd plismona, gan gynnwys Troseddu Cyfundrefnol Difrifol, Atal Terfysgaeth a Diogelu. Fe arweiniodd y drefn genedlaethol o weithredu argymhellion yr Adolygiad Gwella Gweithrediadol traws-asiantaethol a gynhaliwyd yn sgil gweithgareddau terfysgwyr yn y Deyrnas Unedig yn 2017/18. Ers iddi ymddeol o'r heddlu, mae Theresa wedi gweithio'n helaeth ym maes diogelu. Nid oes ganddi unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol nac unrhyw aelod o'r panel adolygu yn yr achos hwn. Mae hi felly'n annibynnol ar y broses. Mae Theresa wedi cwblhau hyfforddiant y Swyddfa Gartref ar gyfer Cadeiryddion Adolygiadau Lladdiad Domestig.

**CYLCH GORCHWYL YR ADOLYGIAD**

Wrth lunio'r cylch gorchwyl, ceisiwyd:

- Adnabod y dull gorau o gaffael a dadansoddi gwybodaeth berthnasol ac am ba gyfnod cyn y lladdiad, er mwyn deall y materion pwysicaf i ymdrin â hwy yn yr adolygiad a sicrhau y deellir yr hyn a ddysgir yn sgil y lladdiad penodol hwn a'r amgylchiadau ac y caiff newidiadau systemig eu rhoi ar waith. Wrth wirio cofnodion, gellir adnabod unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol eraill neu unigolion a fedrai gynorthwyo'r adolygiad drwy ddarparu gwybodaeth.

- Adnabod yr asiantaethau a gweithwyr proffesiynol a ddylai fod yn rhan o'r Panel a'r rhai hynny a ddylai gyflwyno cronolegau ac Adolygiadau Rheoli Unigol a phennu amserlen ar gyfer cwblhau.

- Deall gofynion yr ymchwiliad troseddol, unrhyw ymchwiliad i gamymddwyn a phroses y Cwest a chydymffurfio â hwy ac adnabod unrhyw broblemau â datgeliad a ffyrdd o'u datrys, gan gynnwys rhai sy'n deillio o gyhoeddi adroddiad gan y Panel hwn.

- Adnabod unrhyw ystyriaethau perthnasol ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n deillio o'r achos hwn ac os oes rhai, adnabod y cyngor neu gymorth proffesiynol a allai fod yn angenrheidiol.

- Canfod a fu'r dioddefwr neu'r cyflawnwr yn destun Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) ac a oedd y cyflawnwr yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd neu Raglen Cyflawnwr Trais Domestig ac os felly, canfod telerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â datgelu cofnodion cyfarfodydd.

- Penderfynu a yw'r achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Achos Oedolion yn unol â darpariaethau Adran 44 o Ddeddf Gofal 2014 ac os felly, canfod sut orau i reoli hynny yn yr adolygiad hwn ac a oedd y dioddefwr neu'r cyflawnwr yn 'oedolyn ag anghenion gofal a chymorth'.

- Canfod a yw perthnasau, ffrindiau neu gydweithwyr yn dymuno cymryd rhan yn yr adolygiad. Os felly, canfod a oeddent yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad camdriniol at y dioddefwr cyn y lladdiad (unrhyw ddatgeliad; dim terfyn amser). Canfod a oedd aelodau'r teulu'n ymwybodol o unrhyw gamdriniaeth ac unrhyw rwystrau a wynebwyd rhag rhoi gwybod am gamdriniaeth, neu arfer orau a hwylusodd hynny.

- Adnabod sut ddylai'r adolygiad ystyried y gwersi a ddysgwyd eisoes yn Sir y Fflint a gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill.

- Canfod sut mae pobl yn Sir y Fflint yn cael mynediad at gyngor ynglŷn â cham-drin domestig, p'un a ydynt yn dioddef camdriniaeth neu'n gwybod ei fod yn digwydd i ffrind, perthynas neu gydweithiwr [cynhelir ymchwil ynglŷn â hynny].

- Adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn barhaus fel y gellir manteisio ar unrhyw ffynhonnell wybodaeth nad yw'n hysbys eto neu gysylltu ag unigolion neu sefydliadau perthnasol.

**Ystyriaethau i'r Panel**

A fedrai gwella unrhyw un o'r pethau hyn fod wedi arwain at wahanol ganlyniad i Lucy, gan ystyried:

- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau ynghylch diogelu oedolion a phlant
- Cyfathrebu o fewn gwasanaethau
- Cyfathrebu a deunydd cyhoeddusrwydd i'r cyhoedd a gwasanaethau nad ydynt yn rhai arbenigol ynglŷn â natur a chyffredinrwydd cam-drin domestig a'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael yn lleol
- A yw'r gwaith y mae gwasanaethau wedi'i wneud yn yr achos hwn yn gyson â phob sefydliad o safbwynt:
- Safonau proffesiynol a/neu
- Polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau cam-drin domestig.

Ymateb yr asiantaethau perthnasol i unrhyw atgyfeiriadau ynglŷn â Lucy a'i phartner, David. Ceisir deall pa benderfyniadau a wnaed a pha gamau gweithredu a gymerwyd neu beidio, a chanfod y rhesymau am hynny. Yn benodol, ymchwilir i'r meysydd canlynol:

- Adnabod cyfleoedd allweddol ar gyfer asesu, penderfynu ac ymyrryd yn effeithiol yn yr achos hwn, o'r adeg y cyswllt cyntaf â Lucy
- A oedd unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yn gyson â'r asesiadau a phenderfyniadau a wnaed ac a oedd yr ymyriadau hynny'n amserol ac yn effeithiol
- A gafodd gwasanaethau priodol eu cynnig/darparu ac/neu a wnaed ymholiadau perthnasol yn sgil unrhyw asesiadau a wnaed
- Ansawdd asesiadau risg pob asiantaeth ynglŷn â Lucy
- A oedd trothwyon y sefydliadau ar gyfer ymyrryd wedi'u pennu'n briodol ac/neu wedi'u dilyn yn gywir, yn yr achos hwn.

Hefyd, ceisiwyd canfod:

- a oedd arferion yr holl asiantaethau'n ystyriol o hunaniaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yr unigolion dan sylw ac a gafodd unrhyw anghenion arbenigol oedd ganddynt eu harchwilio, eu rhannu'n briodol a'u cofnodi
- a gafodd materion eu huwchgyfeirio at uwch-reolwyr neu sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill, os oedd hynny'n briodol, a'u cwblhau'n brydlon
- a nodwyd unrhyw ofynion hyfforddi neu sesiynau codi ymwybyddiaeth i sicrhau gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig
- sut ellid rheoli'r wybodaeth a'r adroddiad a ddeilliai o hynny gyda pherthnasau a ffrindiau cyn cyhoeddi a gyda'r cyfryngau ar ôl cyhoeddi.

## CRONOLEG GRYNO

Roedd Lucy'n perthyn i deulu gwyn Prydeinig ac fe'i ganwyd ym 1994. Roedd Lucy'n 27 mlwydd oed pan fu farw. Roedd ganddi 3 o frodyr a chwiorydd a bu'n byw â'i rhieni nes iddi gael ei phlentyn cyntaf. Nid oedd hi'n gweithio'n llawn amser ond roedd ganddi swydd ran-amser yn y Co-op lleol.

Pan fu farw Lucy, roedd hi'n byw'n annibynnol â'i phedwar o blant yn nhŷ ei mam. Roedd hi wedi gwahanu â David yn ddiweddar, ar ôl perthynas ysbeidiol a barodd ddeng mlynedd, ond roedd yn dal yn ymweld â'r tŷ. Roeddent yn dal yn briod ac ef oedd tad pob un o'r plant.

Roedd David yn 29 mlwydd oed pan gyflawnwyd y drosedd. Bu'n byw â'r dioddefwr yn nhŷ ei mam tan yr wythnos flaenorol. Roedd yn gweithio'n llawn amser, y ngwneud sifftiau 12 awr fel peiriannydd, gan gynnwys llawer o sifftiau nos.

Nid oedd David yn hysbys i'r heddlu am unrhyw faterion domestig gyda Lucy nac unrhyw bartner arall. Gwnaed honiad o ymosod cyffredin yn erbyn David ym mis Rhagfyr 2020 yn dilyn ffrae ynglŷn â pharcio. Methodd y dioddefwr â chadarnhau hynny ac felly ni chofnodwyd euogfarn.

Cyhuddwyd David o ymosod yn 2011, pan ddyrnodd ddioddefwr (gwahanol) ddwywaith a thorri eu trwyn. Derbyniodd Orchymyn Cymunedol am hynny. Er nad yw hynny'n gofnod troseddol hir, mae'n dangos ei dueddiad at drais direswm. Nid oes unrhyw wybodaeth arall yn hysbys i asiantaethau ynglŷn ag ymddygiad fel hyn.

Yn yr wythnosau cyn y bu farw Lucy, roedd hi wedi dod â'r berthynas â David i ben.

Ar 25.08.2021, roedd Lucy gartref gyda'i phlant a'i chefnder, ei bartner yntau a'u plant. Daeth David i'r tŷ er mwyn casglu rhai o'i bethau a gofalu am y plant wrth i Lucy fynd i'r dafarn.

Am 17.50, gadawodd Lucy y dafarn â'i chefnder, Mike, ei bartner Mary a'u plant a dychwelyd adref fel y gallai David fynd i'w waith. Arhosodd rhai eraill o'i ffrindiau yn y dafarn am gyfnod cyn ymuno â Lucy yn y tŷ, lle buont oll yn eistedd yn yr ardd yn cymdeithasu ac yn yfed wrth i'r noson fynd yn ei blaen.

Fe ffoniodd David Lucy nifer o weithiau ar yr adeg hon ond ni atebodd ei alwadau.

Am 22.02, rhoes David wybod fod arno angen gadael y lle gwaith. Anfonodd neges WhatsApp at ei gydweithiwr yn dweud fod arno angen gadael gan fod ei frawd wedi cymryd gorddos o heroin. Celwydd oedd hynny. Yn ôl tystion yn y lle gwaith, roedd yn ymddangos yn 'normal'.

Rhwng 23:30 a 00:00, gadawodd tri o ffrindiau ac arhosodd un ffrind gwrywaidd ar ôl yn y tŷ gyda Lucy. Roedd y plant yn eu gwelyau. Wedi i bawb arall adael, safodd y ddau yn y portsh yn siarad am tua chwarter awr ac fe gusanon nhw. Yn ddiarwybod iddynt, roedd David yn eu gwylio.

Yn fuan iawn wedyn, gadawodd David ei hun i mewn i'r tŷ. Mae union fanylion yr hyn a ddigwyddodd nesaf yn aneglur gan nad yw David wedi rhoi cyfrif am hynny. Nid oes unrhyw dystion i'r digwyddiadau wrth iddynt fynd rhagddynt, ac ni wnaeth cymdogion glywed na gweld unrhyw beth o bwys. Mae'r dystiolaeth fforensig, fodd bynnag, yn amlygu'r ffyrnigrwydd a thrais a ddigwyddodd.

Mae'n ddiamwys bod David wedi llofruddio Lucy rhwng 00:30 a 06:00. Datgelodd archwiliad *post mortem* yn ddiweddarach bod Lucy wedi dioddef ymosodiad treisgar, di-ball ag arf â llafn ac y bu farw o ganlyniad i fygu, rhwystro llwybr anadlu o'r tu allan a chywasgu'r gwddf. Roedd David wedi'i thrywanu a'i thagu.

Rywbryd ar ôl 06:00, deffrodd David y plant a mynd â hwy o'r tŷ i dŷ ei fam a'i dad. Wrth gyrraedd, dywedodd David wrth ei dad ei fod wedi 'rhoi dwrn' i Lucy a'i gadael yn cysgu ar y soffa. Wedi i'w dad ddwyn perswâd arno i fynd i orsaf yr heddlu, hysbyswyd yr heddlu o ddigwyddiad a danfonwyd swyddogion i'r tŷ.

Wrth fynd i mewn i'r tŷ, canfu swyddogion Lucy wedi marw, mewn ystafell wely fechan yn gorwedd o dan bentwr o ddillad ar wely bach, gyda llawer iawn o waed ar ei hwyneb, ei brest a'i choesau. Fe'i canfuwyd ar ei phen ei hun yn y tŷ. Arestiwyd David am lofruddiaeth. Ni ddywedodd ddim yn y cyfweliad ond fe'i cyhuddwyd.

Ar ôl cwblhau adroddiadau seiciatryddol, plediodd David yn ddieuog i lofruddiaeth neu ddynladdiad Lucy. Pennwyd y byddai'r treial yn dechrau ar 21.03.2022. Cyfaddefodd David i ddynladdiad yn ystod y treial.

## <u>MATERION ALLWEDDOL SY'N DEILLIO O'R ADOLYGIAD</u>

Y mater pennaf a gododd yn ystod yr adolygiad oedd y ffaith bod y wybodaeth oedd yn hysbys i unrhyw asiantaeth yn eithriadol o brin. Nid oedd Lucy wedi gwneud unrhyw

ddatgeliad i neb oedd yn gweithio i asiantaeth. Golygai hynny na fu cyfle i ymyrryd na chefnogi Lucy.

Daeth yn amlwg nad oedd Lucy'n gweld na chydnabod ei hun fel dioddefwr. Ymddengys bod ei pherthnasau a'i ffrindiau o'r un farn, ac ni chafwyd datgeliadau ganddynt hwythau chwaith yn ystod yr adolygiad.

## CASGLIADAU

Mae cam-drin domestig corfforol yn beth cignoeth, byw a gwirioneddol. Yn yr achos trasig hwn, nid oedd unrhyw **asiantaeth** a gymerodd ran yn yr adolygiad yn ymwybodol o unrhyw gam-drin corfforol. Mae'n amlwg bellach y camdriniwyd Lucy yn gorfforol ar ffurf treisio rhywiol. Ni wnaed adroddiadau ynghylch yr achosion hynny o dreisio.

Nid yw cam-drin domestig ar ffurf ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn amlwg bob amser. Mae hynny'n anos ei ddiffinio ond mae amryw bethau'n awgrymu, fel y sonnir uchod, bod Lucy dan fygythiad. Roedd yno arwyddion ac awgrymiadau (cliwiau) bod David yn beryglus. Dangosodd David gryn genfigen; roedd yn rheoli Lucy ond eto roedd diffyg hyder ganddo ynglŷn â'r berthynas. Gan ystyried y Llinell Amser Lladdiadau gan Monckton Smith, yn anffodus roedd pob cam yn berthnasol i Lucy a David.

Nid oedd Lucy'n ystyried ei hun yn ddioddefwr. Nid oedd yn gweld na chydnabod fod David yn beryglus. Roedd y ffordd y bu'n byw â David wedi dod yn 'norm' iddi. Ef oedd ei chymar cyntaf fel oedolyn, ac felly roedd yr ymddygiad meddiannol a chenfigennus yn rhywbeth roedd hi wedi'i brofi gydol y berthynas a barodd am ddeng mlynedd. Ar y noson y llofruddiwyd Lucy, er ei bod yn pryderu y gallai David adael ei waith, dywedodd wrth ei ffrindiau ei bod hi'n teimlo'n ddiogel, gan na chredai y byddai'n gwneud dim tra bod y plant yn bresennol. Fe wnaeth yr ymdeimlad hwn o ddiogelwch ei hatal rhag gweld ei bod mewn perygl, ar ddiwedd perthynas nad oedd David eisiau rhoi'r gorau iddi.

Yn yr achos hwn, ni wnaeth Lucy gydnabod yr arwyddion neu'r ffactorau risg hynny, na neb arall o'i theulu a chylch helaeth o ffrindiau. Ni wnaeth yr un asiantaeth dderbyn datgeliad o'r risgiau neu'u hadnabod eu hunain. Gan na wnaed unrhyw ddatgeliadau, ni allai gweithwyr proffesiynol fod wedi arfer eu chwilfrydedd proffesiynol na chynnig cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd. Mae'n annhebygol y gallai asiantaeth fod wedi ymyrryd.

Y peth pwysicaf a ddaw i'r amlwg yn yr adolygiad hwn yw y gellid fod wedi gwneud llawer iawn mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol a sut mae hynny'n cyfrannu at ddwysau risg a pherygl (rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru'n gweithio arno ar hyn o bryd). Nes bod y cyhoedd yn gweld a chydnabod y perygl, y drasiedi yw y bydd mwy o ferched fel Lucy'n marw.

## GWERSI I'W DYSGU:

Ni ellid fod wedi disgwyl yn rhesymol fod asiantaethau'n gwybod am y gamdriniaeth nas datgelwyd. Serch hynny, cyflwynir y gwersi a ddysgodd yr Asiantaethau yma ar ffurf

‘arsylwadau’, gan ddisgwyl y bydd asiantaethau’n adolygu eu polisïau ac arferion ar sail hynny. Mae’r rhain yn cynnwys:

Bydd yr holl asiantaethau’n adolygu hyfforddiant staff er mwyn eu haddysgu ynghylch y ffactorau risg sy’n gysylltiedig ag ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.

Adolygir y prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr holl asiantaethau er mwyn sicrhau y rhennir gwybodaeth berthnasol ynglŷn ag ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ymysg gweithwyr proffesiynol.

## <u>ARGYMHELLION YN DEILLIO O’R ADOLYGIAD:</u>

Dyma’r unig argymhelliad yn yr achos hwn:

Bod yr holl bartneriaid yn hyrwyddo ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru (fel y’u disgrifir uchod) i godi ymwybyddiaeth gymunedol, gan ganolbwyntio ar ddatgeliadau gan bobl ddienw neu drydydd partïon ynglŷn â cham-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, gan gynnwys Trais rhywiol mewn perthnasoedd.